# ARWR NEU ELYN?

CARDIFF
CAERDYDD

All Saints
Educational Trust

TREES
FOR CITIES

# ARWR NEU ELYN?

**Trosolwg i'w ddarllen allan:** Nod y gêm yw dysgu am anifeiliaid cyffredin 'dyn ni'n gweld yn yr ardd a phenderfynu ydyn nhw'n dda (arwr) neu'n ddrwg (gelyn) i'r ardd.

Eich gwaith chi yw dweud wrtha fi beth yw enw pob anifail. Yna penderfynwch ydy'r anifail yn arwr neu'n elyn!

## CYFARWYDDIADAU:

1. Dewiswch lun o anifail.
2. Mae'r plant yn dyfalu beth yw'r anifail.
3. Yna mae'r grŵp yn penderfynu a yw'r anifail yn Arwr neu'n Elyn yn eich Gardd Llawn Bwyd.
4. Yna trafodwch pam ei fod yn Arwr neu Elyn.



# BROGA

## ARWR

## PAM?

Dw i'n bwyta plâu cyffredin yr ardd fel malwod a gwlithod

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Gwnewch le oer, tywyll a gwlyb i fi
- Adeiladwch bwll neu adael twba mawr o ddŵr allan, ond gwnewch yn siŵr eich bod chi'n creu ysgol neu'n rhoi cerrig i mi ddringo mewn ac allan!



# LLYSLAU

## GELYN

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta'r sudd yn nail a choesynnau eich cnydau a dw i'n gallu adeiladu cymuned gyfan o ffrindiau a fydd yn yfed yr holl sudd o'r planhigion!

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Gallwch chi annog anifeiliaid sy'n fy mwyta i, fel buwch goch gota a chorynnod.
- Dw i ddim yn hoffi garlleg na basil, felly gallwch chi wneud cymysgedd o ddŵr a basil neu arlleg a'i chwistrellu drosof fi!



# CACYNEN

## ARWR

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta paill a neithdar, felly dw i'n dda iawn am beillio'ch planhigion chi

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Plannwch flodau dw i'n hoffi eu bwyta – fel clychau'r gog, pabi a lafant
- Os gwnewch chi gartref i fi allan o ddarnau o ffyn bambŵ bydda i'n dod i fyw yn eich gardd



# LINDYSYN

## GELYN

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta dail a dw i'n gallu bwyta lot, felly bydda i'n mynd drwy lawer o ddail yn gyflym iawn

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Gallwch chi annog anifeiliaid sy'n fy mwyta i fel adar, brogaod a chwilod.
- Gallwch chi greu rhwystr gyda gwlân garddio o gwmpas eich planhigion i fy stopio i rhag eu cyrraedd nhw.
- Gallwch chi fy nghasglu i a fy symud i rywle arall yn bell oddi wrth eich planhigion llysiau.



# MWYDYN

## ARWR

## PAM?

Dw i'n wych am wneud y pridd yn iach a'i lenwi gyda maethynnau i helpu'ch planhigion i dyfu

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI FY ANNOG I'CH HELPU CHI?

- Bydda i'n byw yn eich tŷ mwydod a gallwch chi roi sbarion bwyd i mi eu bwyta. Bydda i'n gwneud 'te mwydod' hyfryd (pi-pi mwydod!) y gallwch chi ei ddefnyddio fel gwrtaith



# CHWILEN Y LLAWR

## ARWR

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta'r plâu sy'n byw yn eich pridd ac sy'n bwyta'ch llysiau – fel gwlithod, lindys a llyslau

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Plannwch rywfaint o wair hir a pheidiwch cael eich temtio i'w dorri. Dw i'n hoffi cuddio yn y gwair tan y nos, pan dw i'n mynd i hela, felly gofalwch beidio sefyll arnaf fi yn ystod y dydd!



# DRAENOG

## ARWR

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta malwod a gwlithod felly dw i'n eu stopio nhw rhag bwyta'ch planhigion chi

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Gwnewch le i fi gysgodi o hen ddarnau o bren a dail.
- Dw i'n cysgu yn y gaeaf, felly gwnewch yn siŵr fod hwn yn lle tawel lle gallaf i guddio a chysgu'n dda
- Gadewch ddŵr allan i fi dros nos mewn soser fel bod rhywbeth i fi yfed



# PRYF HOFRAN

## ARWR

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta paill a neithdar, felly dw i'n wych am beillio'ch planhigion chi.

Bydd fy larfâu i hefyd yn bwyta plâu fel llyslau, felly maen nhw'n wych am warchod eich planhigion chi

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Plannwch flodau dw i'n mwynhau eu bwyta – dw i'n hoffi llygad y dydd a blodau bach arall oherwydd tafod fach sydd gen i!
- Dw i'n hoffi dodwy fy wyau mewn compost, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n llenwi'ch biniau compost!



# BUWCH GOCH GOTA

**ARWR**

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta plâu fel llyslau a gwiddon – fel mae fy larfâu i hefyd – felly bydda i'n gwarchod eich cnydau chi

### CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Dw i'n bwyta llawer o baill, felly dw i'n hoffi blodau – dw i'n hoffi ffenigl, marigold a geranium/mynawyd yn arbennig
- Os gwnewch chi gartref i fi allan o ddarnau o ffyn bambŵ bydda i'n dod i fyw yn eich gardd.



# LLYGODEN

## GELYN

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta hadau a ffrwythau. Felly pan fyddwch chi'n hau eich hadau, efallai bydda i'n eu dwyn nhw dros nos.

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Gallwch chi warchod eich ffrwythau a'ch hadau drwy greu rhwystrau gyda netin ar gyfer llwyni ffrwythau, neu warchod eich hadau yn y tŷ gwydr neu dan orchuddion.



# GWLITHEN

## GELYN

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta planhigion a'u dail. Dw i'n gallu bwyta llawer iawn iawn ar unwaith, felly efallai gwelwch chi bod eich planhigion newydd wedi cael eu sglaffio erbyn y bore!

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Gallwch chi geisio denu anifeiliaid sy'n fy mwyta i, fel adar, brogaod a chwilod.
- Mae rhai planhigion dw i ddim yn eu hoffi, fel mint, felly os tyfwch chi rwystr o fint o gwmpas eich planhigion llysiau bydda i'n cadw draw.



# MALWODEN

## GELYN

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta planhigion gyda llawer o ddail, a gallaf i sglaffio llond fy mol o salad a letys. Dw i wrth fy modd gyda phlanhigion bach (rhai sydd newydd egino) oherwydd mae'r rhain yn felys iawn ac yn llawn sudd

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Gallwch chi geisio denu anifeiliaid sy'n fy mwyta i, fel adar a brogaod.
- Dw i ddim yn hoffi mynd dros bethau garw, felly os rhowch chi blisgyn wy neu raean garw o gwmpas eich planhigion wna i ddim llithro drosto.



# CORRYN

## ARWR

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta pryfed a phlâu fel llyslau a fyddai fel arall yn bwyta'ch planhigion chi.

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Gadewch rywfaint o doriadau gwair neu ddail marw i fi fyw ynddyn nhw a chuddio oddi tanyn nhw.



# CADNO

## GELYN

## PAM?

Dw i'n hoffi gwneud fy musnes mewn gerddi er mwyn marcio fy nhiriogaeth gyda fy arogl. Dw i hefyd weithiau'n palu tyllau yn y pridd i chwilio am larfâu pryfed i'w bwyta.

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Does dim llawer y gallwch chi ei wneud i gadw cadnoid draw, ond dylai helpu i wneud yn siŵr bod drysau eich sied a'ch tŷ gwydr ar gau a bod yna ddim pentyrrau o sbwriel gerllaw (i chwilio am fwyd neu adeiladu ffau).
- Ceisiwch greu strwythur i warchod eich cnydau.
- Gallai garlleg wedi'i falu weithio hefyd i'w cadw draw.



# GWIWER

## GELYN

## PAM?

Dw i'n hoffi bwyta unrhyw beth y galla i gael fy mhawennau arno yn yr ardd, yn enwedig eich ffrwythau blasus chi!

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Mae gwiwerod yn greaduriaid bach clyfar ac mae'n anodd eu cadw nhw draw, ond ceisiwch adeiladu strwythur a fydd yn eu cadw oddi ar eich cnydau.
- Dydyn nhw ddim yn hoffi bwyd sbeislyd felly gallech chi drio rhoi rhywfaint o tsilis neu bupur Cayenne o amgylch eich gwelyau llysiau.



# CATH

## GELYN

## PAM?

Dw i'n defnyddio'ch gwelyau llysiau fel tŷ bach.

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Mae cathod yn hoffi gwneud eu busnes mewn pridd agored, felly llenwch eich gwelyau llysiau gyda phlanhigion a gorchuddiwch unrhyw fannau agored gyda thomwellt.



# PILI PALA

## ARWR

## PAM?

Dw i'n hedfan o blanhigyn i blanhigyn yn lledaenu paill fel bod blodau, ffrwythau a llysiau'n gallu tyfu.

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

## SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Plannwch flodau sy'n garedig i beillwyr a pheidiwch defnyddio unrhyw gemegion niweidiol
- Mae pili palas yn hoffi llefydd gwyllt, felly gadewch i rai darnau o'ch gardd i ordyfu.



# ADAR

ARWR

A

GELYN

## PAM?

Dw i'n bwyta plâu cyffredin yr ardd fel malwod a gwlithod

## PAM?

Dw i hefyd yn hoffi bwyta rhai o'ch cnydau chi fel bresych, brocoli a ffrwythau meddal

## CWESTIWN DILYNOL (CYFNOD ALLWEDDOL 2)

### SUT GALLWCH CHI DDENU MWY OHONOF FI?

- Rhowch fwyd adar a dŵr allan i fi, yn enwedig ym misoedd oer y gaeaf

### SUT GALLWCH CHI SICRHAU FY MOD I'N CADW DRAW?

- Rhowch netin dros eich cnydau i fy stopio i rhag mynd atyn nhw